**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 27/04/22</u>**

**Yn bresennol:**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Vikki Howells (Cadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Daniel Roberts (Ysgrifennydd) | Cwmpas |
| Derek Walker | Cwmpas |
| Mike Erskine | Cwmpas |
| Donna Coyle | Cwmpas |
| Sarah Evans | Cwmpas |
| Alex Still | Staff Cymorth y Senedd |
| Alun Jones | Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Andy Green | Grow Social Capital |
| Eleri Williams | Ymddiriedolaeth Creu Cymunedau |
| Elin Hywel | Staff Cymorth y Senedd |
| Gareth Andrews | Clwb Criced y Fro |
| Gareth Jones | TownSq |
| Brian Colley | Glyn Wylfa |
| Glenn Bowen | Cwmpas |
| Harry Thompson | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Keith Henson | Barcud Cyf |
| Leonie Rammondt | Cyd-drigo Abertawe |
| Maggie Joan Haggas | 3rd Age Hostelling a Housing/Holistic Hostels Limited |
| Mark Gahan | Hafren Gwy |
| Mark White | Undeb Credyd Smart Money Cymru |
| Martin Little | TPAS Cymru |
| Matthew Reardon | Croeso i'n Coedwig |
| May Baxter-Thornton | Cymoedd Creadigol |
| Michelle Rowson-Woods | Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo |
| Paula Lunnon | Cwmpas |
| Robin Lewis | Staff Cymorth y Senedd |
| Ross Edwards | Fferm Garrison |
| Sibani Roy | NWAMI |
| Josh Chown | Cwmpas |

**Cofnodion y Cyfarfod**

Dechreuwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Vikki Howells AS. Dechreuodd y cyfarfod drwy longyfarch ysgrifenyddiaeth y grŵp, Canolfan Cydweithredol Cymru, ar eu hailfrandio diweddar a'u henw newydd, Cwmpas. Yna, rhoddodd wybod i'r aelodau a mynychwyr y grŵp am ddigwyddiad ar-lein ar 14 Mai, i ddathlu Robert Owen ac adeiladu ar ei etifeddiaeth.

Cafwyd cyflwyniad cyntaf y cyfarfod gan Dr Daniel Roberts, Swyddog Polisi ac Ymchwil yn Cwmpas. Rhoddodd drosolwg o adroddiad newydd, 'Adeiladu Economïau Lleol Cryfach', sydd wedi'i gyhoeddi gan Cwmpas i bontio'r bwlch rhwng cymunedau neu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau, a pholisi a deddfwriaeth. Cyflwynodd y syniad o adeiladu cyfoeth cymunedol a rhoddodd enghreifftiau o sut y

gellir gwneud hyn gyda dulliau penodol, gan gynnwys yr economi sylfaenol, gwerth cymdeithasol a menter gymdeithasol.

Nesaf, rhoddodd Dr Sarah Evans gyflwyniad ar y gwaith y mae Cwmpas yn ei wneud ar draws gwahanol sectorau a chyda gwahanol bartneriaid i ymgorffori gwerth cymdeithasol a datblygu dulliau newydd o ddatblygu economaidd. Rhoddodd Derek Walker hefyd drosolwg o'r gwaith ar berchnogaeth cyflogeion yng Nghymru, sydd wedi gweld sawl trawsnewidiad newydd yn ystod y misoedd diwethaf yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i'r cyflogeion yng Nghymru.

Yn olaf, trafododd Donna Coyle, Rheolwr Gofal a Chymorth Cydweithredol, sut roedd yr egwyddorion a'r dulliau hyn yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yn benodol. Eglurodd dri phrosiect yr oeddent yn gweithio arnynt; prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynyddu modelau darparu gwerth cymdeithasol mewn gofal a chymorth, ynghyd â chanllawiau i gomisiynwyr a chaffaelwyr fuddsoddi mewn modelau gwerth cymdeithasol; Drive Wales - prosiect cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i lywio strategaeth yr Economi Sylfaenol i gynyddu a chreu cyfleoedd i'r trydydd sector gyflenwi mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol; a phrosiect Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Gofal dan arweiniad y gymuned: Atebion i faterion gofal cymdeithasol, sydd i fod i ddechrau yn yr haf.

Daeth y cyfarfod i ben gyda thrafodaeth ymhlith y mynychwyr ar y syniadau a drafodwyd yn y cyflwyniadau a'u perthynas â'u gwaith, gan drafod materion fel gwirfoddoli, llywodraeth leol a photensial menter gymdeithasol. Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei osod a'i ddosbarthu i aelodau a mynychwyr maes o law.